

# PRIFFYRDD, CYMRU

## 2012 Rhif

### DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990

#### GORCHYMYN CAU PRIFFYRDD (IARD GYCHOD DICKIES, LÔN GLANDŴR, BANGOR, GWYNEDD) 2012

*Gwnaed 17 Ebrill 2012*

*Yn dod i rym 26 Ebrill 2012*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn hwn drwy arfer eu pwerau o dan adran 247 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (1) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "Deddf 1990"), a phob pŵer galluogi arall (2).

#### 1. Yn y Gorchymyn hwn: -

ystyr "y Cyngor" (*the Council*) yw Cyngor Gwynedd;

ystyr "y datblygwr" (*the developer*) yw'r person sy'n gwneud y datblygiad y mae'r caniatâd cynllunio y cyfeirir ato isod wedi ei roi ar ei gyfer;

ystyr "y plan a adneuwyd" (*the deposited plan*) yw'r plan o'r enw "Gorchymyn Cau Priffyrdd (Iard Gychod Dickies, Lôn Glandŵr, Bangor, Gwynedd) 2012" sy'n dod gyda'r Gorchymyn hwn.

2. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthyglau 3, 4, 5 a 6 o'r Gorchymyn hwn, mae Gweinidogion Cymru yn awdurdodi cau'r rhan o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn ac a ddangosir â llinellau rhesog sebra ar y map a adneuwyd, a hwythau wedi eu bodloni ei bod yn angenrheidiol cau'r briffordd i alluogi'r datblygiad a ddisgrifir yn Atodlen 4 i'r Gorchymyn hwn i gael ei wneud yn unol â chaniatâd cynllunio a roddwyd o dan Ran III o Ddeddf 1990 gan y Cyngor ar 6 Ionawr 2012 o dan gyfeirnod C09A/0410/11/LL.

3. Crëir, er boddhad rhesymol y Cyngor, y briffordd newydd a ddisgrifir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn, ac a ddangosir â dotwaith ar y plan a adneuwyd, a'r briffordd y gwneir gwelliannau iddi ac a ddisgrifir yn Atodlen 3 i'r Gorchymyn hwn, ac a ddangosir â chroes linellau ar y plan a adneuwyd, a byddant yn briffyrdd sydd, at ddibenion Deddf Priffyrdd 1980 (3), i'w cynnal a'u cadw ar draul y cyhoedd, a'r Cyngor fydd yr awdurdod priffyrdd drostynt.

4. Ni chaniateir cau'r rhan o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn:

- (a) hyd nes y bydd y datblygwr wedi darparu, er boddhad rhesymol y Cyngor, blaniau sy'n dangos drwy ba fodd y bwriedir cau'r rhannau o briffordd;
- (b) hyd nes y bydd y datblygwr wedi darparu'r priffyrdd newydd a ddisgrifir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn er boddhad rhesymol y Cyngor;
- (c) hyd nes y bydd y datblygiad y cyfeirir ato yn Atodlen 4 i'r Gorchymyn hwn wedi dechrau a bod y datblygwr wedi hysbysu'r Cyngor yn ysgrifenedig ei bod yn angenrheidiol cau'r rhannau o briffordd i ganiatáu i'r datblygiad fynd rhagddo; a
- (d) hyd nes y bydd y Cyngor wedi ysgrifennu at y datblygwr i gadarnhau bod darpariaethau (a), (b) ac (c) o'r erthygl hon wedi eu cyflawni.

5. Os yn union cyn cau'r rhan o briffordd yn unol â'r Gorchymyn hwn bydd unrhyw offer ymgwymerwyr statudol neu ddarparwyr cyfathrebu cyhoeddus o dan y briffordd, ynddi, arni, drosti, ar ei hyd neu ar ei thraws, yna (yn ddarostyngedig i adran 261(4) o Ddeddf 1990), bydd gan yr ymgwymerwyr neu'r darparwyr yr un hawliau o ran yr offer ag a oedd ganddynt cyn cau'r briffordd.

6. Os na fydd y datblygiad y cyfeirir ato yn Atodlen 4 i'r Gorchymyn hwn wedi ei ddechrau o fewn y cyfnod perthnasol a bennir yn Rhan III o Ddeddf 1990 fel cyfnod y caniatâd cynllunio, neu os yw'r caniatâd yn cael ei ddirymu cyn diwedd y cyfnod hwnnw, bydd y Gorchymyn hwn yn peidio â bod yn effeithiol pan ddaw'r caniatâd cynllunio i ben.

7. Daw'r Gorchymyn hwn yn weithredol ar y dyddiad y caiff yr hysbysiad ei fod wedi ei wneud ei gyhoeddi gyntaf yn unol ag adran 252(10) o Ddeddf 1990. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cau Priffyrdd (Iard Gychod Dickies, Lôn Glandŵr, Bangor, Gwynedd) 2012.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 17 Ebrill 2012

G MORGAN  
Pennaeth Gwasanaethau Seilwaith Arbenigol  
Llywodraeth Cymru

(1) 1990 p.8.

(2) Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11, i'r Ddeddf honno, mae'r pweirau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(3) 1980 p.66.

## YR ATODLENNI

### ATODLEN 1

(Bras amcan yw pob mesuriad)

#### **Disgrifiad o'r rhan o briffordd sydd i'w chau o dan y Gorchymyn hwn**

Rhan betryal ei siâp sy'n ffurfio rhan o'r briffordd a elwir yn Lôn Glandŵr, a'i hyd mwyaf yn 50.1 o fetrau, a'i lled mwyaf yn 4.2 fetr, a chyfanswm ei harwynebedd yn 210.4 o fetrau sgwâr. Mae'r rhan yn ymestyn o bwynt A i bwynt B ar y plan a adneuwyd.

### ATODLEN 2

#### **Disgrifiad o'r rhan newydd o briffordd sydd i'w darparu o dan y Gorchymyn hwn**

Rhan afreolaidd ei siâp sy'n ffurfio rhan o'r briffordd a elwir yn Lôn Glandŵr, a'i hyd mwyaf yn 340.9 o fetrau, a'i lled mwyaf yn 5.5 metr, a chyfanswm ei harwynebedd yn 1,874 o fetrau sgwâr. Mae'r rhan yn dechrau ac yn dod i ben ym mhwynt E ar y plan a adneuwyd.

### ATODLEN 3

#### **Disgrifiad o'r rhan o briffordd sydd i'w gwella o dan y Gorchymyn hwn**

Rhan betryal ei siâp sy'n ffurfio rhan o'r briffordd a elwir yn Lôn Glandŵr, a'i hyd mwyaf yn 32.6 o fetrau, a'i lled mwyaf yn 2.5 metr, a chyfanswm ei harwynebedd yn 81.5 o fetrau sgwâr. Mae'r rhan yn ymestyn o bwynt C i bwynt D ar y plan a adneuwyd.

### ATODLEN 4

#### **Y Datblygiad Arfaethedig yn Iard Gychod Dickies, Bangor**

Dymchwel adeiladau presennol, creu cylchfan a ffordd i gerbydau gael mynd i'r safle o Lôn Glan Môr, creu llwybr troed o'r safle i Ffordd Garth a chodi datblygiad preswyl ar gyfer 72 o anheddau.

## **DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990**

### **GORCHYMYN CAU PRIFFYRDD (IARD GYCHOD DICKIES, LÔN GLANDŴR, BANGOR, GWYNEDD) 2012**

**HYSBYSIR DRWY HYN** fod Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 247 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn awdurdodi cau'r rhan o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Hysbysiad hwn; darparu ar gyfer y rhan newydd o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 2 i'r Hysbysiad hwn a gwella'r rhan o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 3 i'r Hysbysiad hwn.

Nid awdurdodir cau'r briffordd ond er mwyn galluogi'r datblygiad a ddisgrifir yn Atodlen 4 i'r Hysbysiad hwn i gael ei wneud. Bydd y Gorchymyn hwn yn peidio â bod yn effeithiol os daw'r caniatâd cynllunio i ben neu os caiff ei ddirymu.

Yn ystod y cyfnod o 6 wythnos ar ôl 26 Ebrill 2012, gellir edrych ar gopiau o'r Gorchymyn a'r map a adnewwyd yn rhad ac am ddim yn swyddfeydd Cyngor Dinas Bangor, Neuadd y Dref, Bangor, Gwynedd LL57 1DT neu gellir eu cael yn rhad ac am ddim o'r cyfeiriad isod gan ddyfynnu cyfeirnod Llywodraeth Cymru qA990863.

Os bydd unrhyw berson yn dymuno herio dilysrwydd y Gorchymyn, neu ddilysrwydd unrhyw ddarpariaeth sydd ynddo, ar y sail:

- a. nad yw o fewn pwerau Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990; neu
- b. bod ei fuddiannau wedi cael eu rhagfarnu'n sylweddol oherwydd methiant i gydymffurfio ag unrhyw un o ofynion y Ddeddf,

caiff y person hwnnw, o fewn 6 wythnos i 26 Ebrill 2012, wneud cais i'r Uchel Lys am atal dros dro neu i ddiddymu'r Gorchymyn neu unrhyw ddarpariaeth sydd ynddo.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru yn [www.cymru.gov.uk](http://www.cymru.gov.uk). (Detholer: Deddfwriaeth/Is-ddeddfwriaeth/Offerynnau Anstatudol/Trafnidiaeth, Cymru/Gorchymynion Cau TCPA/2012).

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn gan: Trafnidiaeth, Y Gangen Orchmynion, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**M D BURNELL**  
Trafnidiaeth  
Y Gangen Orchmynion  
Llywodraeth Cymru

## **YR ATODLENNI**

### **ATODLEN 1**

**(Bras amcan yw pob mesuriad)**

#### **Disgrifiad o'r rhan o briffordd sydd i'w chau o dan y Gorchymyn hwn**

Rhan betryal ei siâp sy'n ffurfio rhan o'r briffordd a elwir yn Lôn Glandŵr, a'i hyd mwyaf yn 50.1 o fetrau, a'i lled mwyaf yn 4.2 fetr, a chyfanswm ei harwynebedd yn 210.4 o fetrau sgwâr. Mae'r rhan yn ymestyn o bwynt A i bwynt B ar y plan a adnewwyd.

### **ATODLEN 2**

#### **Disgrifiad o'r rhan newydd o briffordd sydd i'w darparu o dan y Gorchymyn hwn**

Rhan afreolaidd ei siâp sy'n ffurfio rhan o'r briffordd a elwir yn Lôn Glandŵr, a'i hyd mwyaf yn 340.9 o fetrau, a'i lled mwyaf yn 5.5 metr, a chyfanswm ei harwynebedd yn 1,874 o fetrau sgwâr. Mae'r rhan yn dechrau ac yn dod i ben ym mhwynt E ar y plan a adnewwyd.

### **ATODLEN 3**

#### **Disgrifiad o'r rhan o briffordd sydd i'w gwella o dan y Gorchymyn hwn**

Rhan betryal ei siâp sy'n ffurfio rhan o'r briffordd a elwir yn Lôn Glandŵr, a'i hyd mwyaf yn 32.6 o fetrau, a'i lled mwyaf yn 2.5 metr, a chyfanswm ei harwynebedd yn 81.5 o fetrau sgwâr. Mae'r rhan yn ymestyn o bwynt C i bwynt D ar y plan a adnewwyd.

### **ATODLEN 4**

#### **Y Datblygiad Arfaethedig yn Iard Gychod Dickies, Bangor**

Dymchwel adeiladau presennol, creu cylchfan a ffordd i gerbydau gael mynd i'r safle o Lôn Glan Môr, creu llwybr troed o'r safle i Ffordd Garth a chodi datblygiad preswyl ar gyfer 72 o anheddau yn unol â chaniatâd cynllunio a roddwyd o dan Ran III o Ddeddf 1990 gan y Cyngor ar 6 Ionawr 2012 o dan gyfeirnod C09A/0410/11/LL.